

Cod Morol Ceredigion

Yn gyffredinol, byddwch yn wylidwrus a chadwch ymhell draw o fywyd gwyllt. Peidiwch â mynd at famaliaid môr, gadewch iddynt ddod atoch chi. Mae pentiroedd a riffiau megis Mwnt, Aberporth, Ynys Lochtyn, Cheinewydd a Sarn Cynfelyn yn fannau pwysig i ddolffiniaid a llamhidyddion fwydo; byddwch yn ofalus iawn wrth deithio'n araf a pheidio ag aflonyddu ar anifeiliaid yn y manau hyn. Byddwch yn ofalus wrth lywio cychod, gan sicrhau diogelwch y teithwyr a pharchu pobl eraill sy'n defnyddio'r môr. Peidiwch â thafu sbwriel na chyfarpar pysgota i'r môr.


Dolffiniaid, Llamhidyddion a Morloi

Os dewch chi ar draws y creaduriaid hyn yn y môr:

- Arafwch yn raddol i'r cyflymder isaf posib. Peidiwch â newid eich cyflymder na'ch cwrs yn sydyn.
- Peidiwch â llywio'r cwch yn syth atynt na mynd yn nes na 100 medr.
- Peidiwch â cheisio cyffwrdd y creaduriaid, eu bwydo na nofio â hwy.
- Byddwch yn arbennig o ofalus wrth osgoi aflonyddu ar anifeiliaid gyda rhai ifainc.
- Peidiwch â mynd at forloi sy'n gorffwys ar y lan, a pheidwch â mynd i mewn i ogofâu môr yn y tymor lloea (1 Awst tan 31 Hydref).
- Peidiwch a gwneud unrhyw sŵn diangen ger yr anifeiliaid.

Adar

- Cadwch draw o'r clogwyni yn y tymor bridio, 1 Mawrth – 31 Gorffennaf.
- Peidiwch â gwneud unrhyw sŵn diangen yn agos i'r clogwyni.
- Cadwch draw o heidiau adar sy'n gorffwys neu'n bwydo ar y môr.



Mae'r Cod hwn yn berthnasol i bob llong a chwch hamdden yn cynnwys cychod modur, cychod hwylio, dingis, badau personol, caiacau a chanŵod. Dylech gydymffurfio â phob cais gan gyhod patrôlio lleol a bod yn ymwybodol o derfynau cyflymder o amgylch traethau ymdrochi a safleoedd bywyd gwyllt.

Noder fod Harbwrfeistri a Swyddogion Rheoli Lansio Ceredigion wedi'u hawdurdodi i dynnu trwyddedau lansio a/neu angori oddi ar gychod ac unigolion nad ydynt yn cadw at reoliadau lleol, is-ddeddfau neu God Morol Ceredigion. Mae'n drosedd i aflonyddu'n fwiadol neu'n ddi-hid ar unrhyw rywogaeth a warchodir (megis dolffiniaid).

